



Simon Thomas AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

9 Tachwedd 2016

Annwyl Simon,

Rwyf yn bwriadu cyhoeddi Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2016-17. Mae'r llythyr hwn yn eich hysbysu ymlaen llaw o'm bwriad gan roi amser ichi gynllunio ar gyfer y gwaith craffu priodol.

Prif ddiben yr Ail Gyllideb Atodol fydd adlewyrchu newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin. Bydd hefyd yn nodi nifer o ddyraniadau o'n cronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau rhwng portffolios Llywodraeth Cymru, trosglwyddiadau gydag adrannau Llywodraeth y DU a bydd yn cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Rwyf yn bwriadu cyflwyno'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2016-17 ar 7 Chwefror. Caiff y gyllideb ei chyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar yr un diwrnod.

O gofio toriad y gwanwyn, rwyf wedi cytuno i ohirio symud yr Ail Gyllideb Atodol ymlaen wythnos tan 7 Mawrth. Mae hyn yn darparu'r cyfnod o dair wythnos a amlinellir yn y Rheolau Sefydlog.

Gobeithio y bydd y diweddariad hwn yn ddefnyddiol ichi.

*Yngywiir,
Mark*

Mark Drakeford AC / AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government